

Wrth iddynt ddatblygu


Llwybr Lluniau

Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

- Gofynnwch i'r plant ddilyn y llwybr gan ddefnyddio lluniau/geiriau'n gliwiau i gyrraedd y lleoliad neu'r gwrthrych nesaf. Unwaith y byddant wedi cyrraedd y lleoliad/gwrthrych nesaf, bydd y plant yn darganfod cliw arall ac ati
- Defnyddiwch ddelweddau a syniadau allan o 'Megan a'r Ddraig Fach', ac anogwch y plant i ddarganfod pethau sy'n debyg i'r eitemau hynny neu sy'n cyd-fynd â nhw, e.e. sinc a brush dannedd

Geiriau allweddol

- Rheolaeth, sgiliau cydsymud, cydbwysedd, cydweithio
- Cliw, gwyllo, chwilio am, chwiliofa, paru, tebyg, cymharu



Cyfleoedd i:

- feithrin hyder wrth ddarganfod eu ffordd o gumpas amgylchedd cyfarwydd
- paru gwrthrychau trwy adnabod tebygrwydd
- cymryd risgiau a dod yn chwilotwyr hyderus

Adnoddau

- Tuneli, parasiwtiau, estyll cydbwyso, byrddau trestl/symudiadau bach, cliwiau ar ffurf lluniau/geiriau
- Llyfr stori 'Megan a'r Ddraig Fach'

Cwestiynau

- Beth sy'n gyfarwydd yn y llun?
- Ble rydych chi wedi gweld hun o'r blaen?
- Beth fydd angen i chi osgoi ei wneud wrth fynd i'r lle hun?

Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwystrau
- bod y plant yn symud yn ddiogel wrth geisio symud cyn gynted ag y gallant
- bod y plant yn gweithio'n unigol, mewn paru neu mewn grwpiau bach
- bod y plant yn dechrau mewn lleoedd gwahanol o gumpas y llwybr er mwyn osgoi tagfeydd

A allwch chi weld y plentyn?

- Yn meithrin hyder wrth ddarganfod ei ffordd o gumpas amgylchedd cyfarwydd?
- Yn paru gwrthrychau trwy adnabod tebygrwydd?
- Yn cymryd risgiau ac yn dod yn chwiolwr hyderus?

weithiau

gan amlaf

Amrywiwch y cliwiau fel a ganlyn:

- gwnewch nhw'n llai amlwg
- gwnewch nhw'n fwy aneglur – dangoswch rannau o wrthrych yn hytrach na'r gwrthrych cyfan
- rhowch nhw allan o olwg y plant
- rhowch nhw ymhellach i ffordd
- ceisiwch sicrhau eu bod nhw'n cyfeirio at fwy nag un lleoliad posibl er mwyn i'r plentyn orfod mynd i nifer o fannau

- Rhowch gliwiau y gellir eu gweld/sy'n agos
- Gwnewch y cliwiau'n fawr ac yn amlwg
- Symudwch ar hyd y llwybr gyda'r plentyn i'w helpu ag unrhyw gwestiwn a allai fod ganddo
- Defnyddiwch saethau cyfeirio i ddangos cyfeiriad y cliw nesaf
- Chwaraewch y gêm 'oer' a 'phoeth' er mwyn dweud wrth y plentyn a yw'n agos at gliw ai peidio

Cyfleoedd campus

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol: Lles – deall ac adnabod y newidiadau sy'n digwydd i'w cyrff wrth iddynt wneud ymarfer corff, a disgrifio'r newidiadau sy'n digwydd i'w hanadl, cyflymder curiad eu calon, eu hymddangosiad a'u teimladau
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd: Lleoedd a phobl ac Amser a phobl – defnyddio a llunio mapiau syml, gwneud arsylwadau a mesuriadau a chadw cofnodion